



Mr Paul Selby BEng (Anrh) MSc MRTPI  
d/o Swyddog Archwilio'r Rhaglen CDLI  
Swyddog y Rhaglen  
Uned 5, Parc Busnes Triongl,  
Pentrebach,  
Merthyr Tudful  
CF48 4TQ

**Anfonwyd drwy e-bost i:**  
**programmeofficer@merthyr.gov.uk**

**Dyddiad/Date:** 31 Hydref 2019

**Ein Cyf./Our ref.:**

EXAM02

**Eich Cyf./Your ref.:**

PS/ST

**Gofynnwch am/Please ask for:**

Mr John Raine

(Arweinydd y Grŵp Polisi Cynllunio)

**Llinell Uniongyrchol/Direct Line:**

01685 726279

**e-bost/e-mail:**

john.raine@merthyr.gov.uk

Annwyl Mr Selby;

### **Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol: Ymgynghoriad Newidiadau o'r Materion sy'n Codi**

Yn dilyn eich llythyr, dyddiedig 28 Hydref 2019, mae'r Cyngor wedi ystyried y materion a godwyd yn sgil Cynllun Cysyniad Ardal Adfywio Strategol Hoover (AAH) ac yn cynghori fel a ganlyn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dynodi nad yw parth amlinelli llifogydd C2 a ddangosir ar Gynllun Cysyniad arfaethedig AAH (MAC10) yn cydymffurfio â'r Map Cyngor Datblygiad (MCD) cyfredol sy'n cydfynd â Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 15, "Datblygiad a Risg Llifogydd." Cyhoeddwyd fersiwn diweddaraf y MCD ar borth Lle Geo-Portal ar gyfer Cymru ar 1 Hydref 2019<sup>1</sup>.

Mae'r Map Cyngor Datblygu yn cael ei ddiweddarau'n chwarterol gan Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn adlewyrchu unrhyw heriau i'r map llifogydd y cytunwyd arnynt yn y cyfamser. Gellir herio cywirdeb y MCD naill ai yn sgil newidiadau i'r tir neu yn sgil arolwg mwy cywir a data modeli.

Mae fersiwn ddiweddaraf y MCD yn cynnwys newidiadau i amlinelliad llifogydd parth C2 yn Abercannaid lle na ddylai datblygiad sy'n agored iawn i niwed gael ei ganiatáu o dan bolisi NCT 15. Mae'r newid hwn yn seiliedig ar ddata modeli hydrolog mwy cywir ar gyfer Nant Cannaid, i'r gorllewin o AAH ac Afon Taf y mae CNC wedi eu derbyn trwy'r broses herio map. Atodir cynlluniau sy'n dangos y newidiadau i'r llythyr hwn fel Atodiad 1.

Nid yw'r diwygiadau i amlinelliad parth llifogydd C2 yn newid yr opsiynau polisi sy'n gwahardd datblygiad sy'n agored iawn i niwed (gan gynnwys datblygiad preswyl) ym Mharc y Ddraig neu ar dir i'r gorllewin o Stryd Gethin yn Abercannaid gan fod y safleoedd hyn yn parhau i fod wedi eu cloi oddi fewn neu'n cael mynediad iddynt o ardaloedd ym mharth llifogydd C2. Gall gwaith lliniaru'r dyfodol leihau'r risg o lifogydd yn yr ardal hon o AAH fel y gallai argymhellion ar gyfer datblygiad sy'n agored iawn i niwed gael ei ganiatáu. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r gwaith lliniaru hyn gael ei weithredu ac i her MCD gael ei gytuno arno cyn y gellir pennu argymhellion ar gyfer datblygiad sy'n agored iawn i niwed. Mae'r safbwynt a nodir ym mharagraffau 4.43 - 4.45 o Ddatganiad Ysgrifenedig y CDLI Amnewid (dogfen ED56) felly yn parhau i fod yn ddigynnewid.

<sup>1</sup> <https://lle.gov.wales/catalogue/item/DevelopmentAdviceMap2/?lang=en>

Daw'r CDLI Amnewid ar y cyd â Map Cyfyngiadau sy'n nodi Map Cyngor Datblygu CNC ym Mehefin 2018. Bydd y Map Cyfyngiadau hwn yn cael ei ddiweddarau a'i gyhoeddi ar y cyd â'r CDLI Amnewid a fabwysiadir. Mae paragraff 1.11 o Ddatganiad Ysgrifenedig y CDLI yn egluro statws Map Cyfyngiadau'r CDLI ac yn cynghori ei fod yn gywir pan gafodd ei gyhoeddi ac y gellir ei ddiweddarau yn y dyfodol. Mae hefyd yn nodi fod y Map Cyfyngiadau'n ddangosol yn unig ac y dylai cynigion datblygu manwl gael eu hysbysu gan wybodaeth o gyfyngiadau diweddar sydd ar gael gan yr awdurdod cyfrifol, dynodedig perthnasol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru neu Cadw.


Yn wahanol i'r Map Cyfyngiadau, byddai Cynllun Cysyniad AAH yn ffurfio rhan o Ddatganiad Ysgrifenedig y CDLI. Mae'n cynnwys ymwadiad sy'n nodi ei fod yn gynllun cysyniad diagramatig y dylid ei brofi'n drwyadl a'i addasu yn unol â'r egwyddorion gwneud lleoedd fel y bydd yr argymhellion manylach yn cael eu datblygu.

Er na fydd y newidiadau i'r MCD yn newid y polisi i wahardd datblygiad a fydd yn agored iawn i niwed ym Mharc y Ddraig neu ar dir i'r gorllewin o Stryd Gethin, gallai testun ychwanegol sy'n mynegi rheswm a chyfiawnhad gal ei ychwanegu er mwyn esbonio statws Cynllun Cysyniad Strategol AAH ac y gallai'r cyfyngiadau a nodir newid yn y dyfodol. Mae testun ychwanegol sy'n mynegi rheswm a chyfiawnhad yn cael ei gynnig, isod:

*6.4.46 Mae Cynllun Cysyniad dangosol ar gyfer ADH wedi cael ei baratoi ac yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer ailddatblygiad yr ardal adfywio yn seiliedig ar Uwch Gynllun Fframwaith yr ADH (Mehefin 2018) ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cynllun Cysyniad yn ddiagramatig yn unig a bydd argymhellion datblygu yn cael eu profi'n drwyadl a'u haddasu gan gyfeirio at egwyddorion Gwneud Lleoedd a nodir ym Mholisi SW6. Mae cyfyngiadau amgylcheddol a ffisegol allweddol wedi cael eu nodi ar y Cynllun Cysyniad ar gyfer bwriadau dangosol yn unig a dylid nodi y gallai'r rhain newid yn y dyfodol. Er enghraifft, gwneir diweddariadau rheolaidd i Fap Cynghori Datblygiad CNC sy'n gysylltiedig â risg llifogydd. Dylai argymhellion datblygu manwl gael eu hysbysu gan wybodaeth o gyfyngiadau amserol y gellir eu cael gan yr awdurdod cyfrifol, dynodedig perthnasol.*

Er mwyn cywirdeb, mae Cynllun Cysyniad AAH hefyd wedi cael ei baratoi sy'n ymgorffori parth llifogydd C2 sydd wedi ei ddiweddarau (ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau eraill.) Atodir hyn i'r llythyr fel Atodiad 2.

Yr eiddoch yn gywir,



**MISS J JONES**  
**PRIF SWYDDOG CYNLLUNIO A GWASANAETHAU CYMDOGAETH**

Amgauedig:

1. Cynlluniau yn dangos newidiadau i Fap Cyngor Datblygu Parth Llifogydd C2
2. Cynllun Cysyniad Ardal Adfywio Strategol Hoover wedi ei ddiweddarau (Hydref 2019)